



Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

ar gyfer yr Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)



Dogfen ryngweithiol
Rhagfyr 2020

20
20-25

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL



© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan ar www.dvla.gov.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn sustainability.team@dvla.gsi.gov.uk



Julie Lennard

Crynodeb gweithredol

Rydym ni yn yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) yn parhau i fod yn ymroddedig i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn wedi ei amlygu fel dangosydd perfformiad amgylcheddol allweddol yn y polisi amgylcheddol corfforaethol.

Rydym wedi bod yn rhagweithiol o ran cyhoeddi cynllun gweithredu bioamrywiaeth (BAP) ar gyfer ein hystâd ers 2013. Mae'r rhain wedi caniatáu fframwaith i ni sydd wedi ei chynllunio i ddarparu gwelliannau pendant i fioamrywiaeth sydd o fewn terfynau ein hystâd ar dri safle yn Ninas a Sir Abertawe.

Ceisia'r rhifyn diweddaraf hwn i adeiladu ar lwyddiant cynlluniau gweithredu blaenorol trwy fanylu ar dargedau penodol i wella cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bresennol ar ein hystâd.

Nodau BAP DVLA yw:

- sicrhau bod targedau cynefinoedd a rhywogaethau o Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, GGC 2020-2025, a chynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol Abertawe yn cael eu trosi i weithredu effeithiol ar yr ystâd
- nodi targedau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau eraill o bwysigrwydd lleol ar yr ystâd
- datblygu partneriaethau effeithiol gyda staff a'r gymuned leol i sicrhau bod rhaglenni ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yn cael eu cynnal yn yr hirdymor
- codi ymwybyddiaeth yn fewnol ac yn lleol ynghylch yr angen am gadwraeth bioamrywiaeth ac i ddarparu arweiniad ar fioamrywiaeth
- sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i gyfleoedd ar gyfer cadwraeth a gwella bioamrywiaeth ar draws ein gweithrediadau
- monitro ac adrodd ar gynnydd mewn cadwraeth bioamrywiaeth i safon sy'n addas ar gyfer cynnal dyfarniad meincnod bioamrywiaeth

Julie Lennard

Prif Weithredwr, DVLA
22 Gorffennaf 2020

Mae'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth yn ddatganiad cyhoeddus gan DVLA o'i hamcanion bioamrywiaeth a'r dulliau ar gyfer eu cyflawni.

Byddem yn croesawu cyfraniad priodol o ran cyflawni'r Cynllun gan sefydliadau, cwmnïau ac unigolion â diddordeb.

Cynnwys

Bioamrywiaeth DVLA – cyflwyniad

01

1.1. Cyflwyniad	6
1.2. Beth mae bioamrywiaeth yn ei olygu?	6
1.3. Pwysigrwydd gwarchod bioamrywiaeth	7
1.4. Y fframwaith cynllunio gweithredu bioamrywiaeth	7
1.5. DVLA a bioamrywiaeth	8
1.6. Nodau cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth DVLA	8

Prosesu BAP DVLA

02

2.1. Meincnodau bioamrywiaeth	10
2.2. Gosod amcanion, targedau a dangosyddion	10
2.3. Gweithrediad	10
2.4. Monitro ac adrodd	10

Cyflwr sylfaenol

03

3.1. Trosolwg	12
3.2. Cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth blaenorol DVLA	12
3.3. Astudiaeth ddesg	12
3.4. Arolwg cynefin	13
3.5. Arolwg rheoli coed	14
3.6. Arolygon rhywogaethau a warchodir a nodedig	14

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP)

04

4.1. Nodau	16
4.2. Cynefinoedd DVLA	19
4.3. Rhywogaethau'r DVLA	22
4.4. Codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r gymuned DVLA	25
4.5. Gwobr Meincnod Bioamrywiaeth DVLA	25

Rhoi ar waith

05

5.1. Pwy sy'n gwneud beth?	28
5.2. Monitro ac adolygu	28
5.3. Adrodd	28

Atodiad A – Rhywogaethau planhigion a gofnodwyd

29

Atodiad B – Nodiadau targed


36

101

**Bioamrywiaeth
DVLA –
cyflwyniad**



01



1.1. Cyflwyniad

Rydyn ni yn DVLA yn parhau i fod yn ymroddedig i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn wedi ei amlygu fel dangosydd perfformiad allweddol yn ein polisi amgylcheddol corfforaethol. Rydym wedi paratoi a chyhoeddi ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP) ers 2013. Dyma'r pedwerydd rhifyn a bydd yn cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2025.

Mae pandemig y coronafeirws yn ein hatgoffa beth allai ddigwydd pan fydd perthynas dynoliaeth gyda natur yn chwalo. Mae'r BAP hwn yn cefnogi ein hymroddiad i sicrhau ein bod yn delio â'r heriau cysylltiedig o iechyd cyhoeddus, newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

Rydym wedi cynnal arolygon biolegol o'r ystâd ac wedi nodi cynefinoedd a rhywogaethau a fyddai'n elwa o reolaeth neu gamau penodol gan yr asiantaeth. Mae'r BAP yn nodi amcanion ar gyfer cadwraeth a gwella bioamrywiaeth ac yn mynd ymlaen i ddisgrifio targedau a chamau sy'n ceisio cyflawni'r amcanion hyn. Y bwriad yw integreiddio bioamrywiaeth, fel fo'n briodol, i'n gweithgareddau, megis rhaglenni cynnal a chadw blynyddol a phrosiectau gwaith cyfalaf.

Bydd y cynllun gweithredu yn helpu diogelu'r fioamrywiaeth nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn benodol, gobeithir y bydd gweithredu'r cynllun yn cyfrannu at gyflawni targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth BAP y DU fel fo'n briodol.

Mae'r Cynllun yn esblygu'n barhaus ac yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

1.2. Beth mae bioamrywiaeth yn ei olygu?


Diffiniodd y Confensiwn ar Fioamrywiaeth yn Uwchgynhadledd y Ddaear yn Rio de Janeiro yn 1992 bioamrywiaeth fel:

“Yr amrywioldeb ymysg organeddau byw o bob ffynhonnell, yn cynnwys tiriogaethol, morol ac ecosystemau dyfrol eraill a'r cymhlygion ecolegol maent yn rhan ohonynt; mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaethau, rhwng rhywogaethau ac mewn ecosystemau.”

Gellir diffinio bioamrywiaeth fel “amrywiaeth bywyd” ac mae'n cwmpasu'r sbectrwm cyfan o organeddau byw, yn cynnwys planhigion, adar, mamaliaid a phryfed. Mae'n cynnwys rhywogaethau cyffredin a phrin, yn ogystal ag amrywiaeth genetig o fewn rhywogaethau. Mae bioamrywiaeth hefyd yn cyfeirio at gynefinoedd ac ecosystemau syn cefnogi'r rhywogaethau hyn.



01



1.3. Pwysigrwydd gwarchod bioamrywiaeth

Mae bioamrywiaeth yn adnodd hanfodol ac mae'n allweddol ein bod yn cydnabod ei bwysigrwydd i'n bywydau ynghyd â'r amrywiaeth o fuddion mae'n cynhyrchu:

- Mae ecosystemau yn darparu – dŵr, maetholion, lliniaru newid hinsawdd, peilliad
- Adnoddau – bwyd, meddyginiaethau, ynni a deunyddiau crai
- Gwella iechyd a llesiant
- Adnoddau addysgol, hamdden ac amwynder




1.4. Y fframwaith cynllunio gweithredu bioamrywiaeth

Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn rhan o fframwaith bioamrywiaeth llawer mwy sy'n cwmpasu lefelau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol o gynllunio gweithredu a chadwraeth bioamrywiaeth.

Mae'r BAP wedi ei lunio gan gyfeirio at y ddeddfwriaeth cadwraeth natur berthnasol ganlynol a Fframwaith Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig, y mae amddiffyniad safleoedd, cynefinoedd a rhywogaeth yng Nghymru yn deillio ohono. Esbonnir cynnwys a pherthnasedd pob eitem fel fo'n briodol yn adrannau perthnasol yr adroddiad.

- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd) (Rheoliadau Cynefinoedd)
- Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) (WCA)
- Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 (Lloegr)
- Deddf Gwarchod Moch Daear 1992
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Fframwaith Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig Wedi 2010 (2011-2020) (JNCC a DEFRA, 2012)
- Bioamrywiaeth 2020: Strategaeth ar gyfer gwasanaethau bywyd gwylt ac ecosystemau Lloegr (DEFRA, 2011)
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig (UKBAP)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Abertawe 2005
- Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025

01



1.5. DVLA a bioamrywiaeth

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn creu dyletswydd i ni warchod bioamrywiaeth. Fel corff cyhoeddus, wrth gyflawni ein busnes rhaid i ni dalu sylw i ddiben gwarchod bioamrywiaeth.

Dywed y Ddeddf bod gwarchod bioamrywiaeth yn cynnwys adfer neu wella poblogaeth neu rywogaeth. Wrth wneud hynny, dylem ystyried y rhestr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o organeddau byw a mathau o gynefinoedd sydd o'r pwysigrwydd mwyaf i ddibenion gwarchod bioamrywiaeth. Mewn effaith, y rhestr hon yw rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth y BAP ar gyfer yr ystâd.

Rydym yn asiantaeth i'r llywodraeth, yn rhan o'r Adran Drafnidiaeth, ac yn amodol i amcanion a sefydlir yn yr Ymroddiadau Gwyrddu'r Llywodraeth (GGC). Mae targedau a osodwyd ar gyfer 2020 i 2025 sy'n berthnasol i'r ystâd yn cynnwys:

- bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol
- plannu coed a chreu coetiroedd
- ymgysylltu staff

Mae BAP DVLA wedi ei gynhyrchu i helpu cyflawni'r gofynion hyn ac mae'n ceisio sefydlu targedau a gweithredoedd sy'n gweddu i BAP y Deyrnas Unedig a chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol.

1.6. Nodau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth DVLA

Nodau BAP DVLA yw:

- sicrhau bod targedau cynefinoedd a rhywogaethau o Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, GGC 2020-2025, a chynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol Abertawe yn cael eu trosi i weithredu effeithiol ar yr ystâd
- nodi targedau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau eraill o bwysigrwydd lleol ar yr ystâd
- datblygu partneriaethau effeithiol gyda staff a'r gymuned leol i sicrhau bod rhaglenni ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yn cael eu cynnal yn yr hirdymor
- codi ymwybyddiaeth yn fewnol ac yn lleol ynghylch yr angen am gadwraeth bioamrywiaeth ac i ddarparu arweiniad ar fioamrywiaeth
- sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i gyfleoedd ar gyfer cadwraeth a gwella bioamrywiaeth ar draws ein gweithrediadau
- monitro ac adrodd ar gynnydd mewn cadwraeth bioamrywiaeth i safon sy'n addas ar gyfer cynnal dyfarniad meincnod bioamrywiaeth

102

Proses BAP DVLA



02



2.1. Meincnodau bioamrywiaeth

Cynhyrchu gwybodaeth y BAP ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n bresennol ar yr ystâd. Roedd hyn yn galw am gasglu data cyfredol sydd gennym, astudiaeth desg ac arolygon cynefinoedd a rhywogaethau.

2.2. Gosod amcanion, targedau a dangosyddion

Ar gyfer pob cynefin a rhywogaeth a nodwyd, lluniwyd amcanion a thargedau cadwraeth a'u sefydlu yn y BAP. Mae'r amcanion yn mynegi nodau eang ar gyfer elwa cynefin neu rywogaeth benodol. Gosodwyd y targedau cysylltiedig i ffocysu'r rhaglenni gweithredu ac i nodi deilliannau y gellir eu monitro i fesur cyflawniad. Ar gyfer pob targed fe osodwyd dangosydd – nodwedd fesuradwy o'r targed sy'n galluogi, wrth ei fonitro dros gyfnod amser, ar gyfer asesu cyflawniad.

Er mwyn i'r BAP hwn fod mor effeithiol â phosibl, mae'r targedau a gweithredoedd wedi eu dyfeisio fel rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amser wedi'i Benu, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol). Mae'r targedau'n uchelgeisiol ond hefyd yn gymesur ac ymarferol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael.

2.3. Gweithrediad

Unwaith y bydd targedau wedi eu sefydlu ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau, mae'n bwysig disgrifio'r gweithredoedd i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. Mae'r Cynllun yn sefydlu sut ydyn ni'n bwriadu gweithredu'r camau.

2.4. Monitro ac adrodd

Bydd cyflawni targedau'r Cynllun yn cael eu mesur mewn rhaglen o fonitro. Disgrifir y dulliau a ddefnyddir yn y Cynllun.

Mae'n bwysig adolygu gweithrediad y BAP, asesu newidiadau yn statws cynefinoedd a rhywogaethau a dichonoldeb cyffredinol yr amcanion a thargedau.

Sefydla'r Cynllun y dulliau i adolygu darpariaeth targedau ac i gyfathrebu cynnydd i staff a'r gymuned leol.

103

Amodau sylfaenol



03



3.1. Trosolwg

Mae'r gwerthusiad hwn wedi ei baratoi gan gyfeirio at arweiniad arfer da cyfredol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol, a'r Pwyllgor Cadwraeth Natur ar y Cyd.

Mae'r BAP hwn yn seiliedig ar y ffynonellau data canlynol:

- BAP blaenorol DVLA
- astudiaeth desg biolegol
- arolwg cynefin
- arolwg rheoli coed
- arolwg rhywogaethau gwarchoddedig/nodedig

3.2. Cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth blaenorol DVLA

Rydym wedi cyhoeddi tri BAP, y cyntaf yn 2013, gyda'r nod o hybu bioamrywiaeth ar ein hystâd. Mae pob un yn ceisio meincnodi a gwella gwerth ecolegol ein hystâd a hyrwyddo'r buddion i staff.

3.3. Astudiaeth desg

Cyflawnwyd yr astudiaeth desg ym Medi 2019 a'i hailadrodd yn Chwefror 2020 i adolygu gwybodaeth gwaelodlin ecolegol cyfredol sydd ar gael yn y parth cyhoeddus. I ddiben yr ymarfer astudiaeth desg, ymgynghorwyd â chofnodion o fewn amrywiol radiysau o amgylch y safleoedd. Mae'r dull hwn yn gyson gydag arweiniad arfer da cyfredol a gyhoeddwyd gan y CIEEM¹, 2013 a 2015.

Ymgynghorwyd gydag adnoddau ar-lein sydd ar gael i bawb megis NBN-Gateway² a MAGIC³ ar gyfer cofnodion o rywogaethau gwarchoddedig o fewn hyd at 500m o'r safleoedd, fodd bynnag, roedd y chwiliadau'n gyfyngedig i brif rywogaethau gwarchoddedig/grwpiau rhywogaethau ble mae'r daith o'r safle wedi nodi potensial ar safleoedd perthnasol. Nid oedd hyn yn chwiliad cynhwysfawr, ond o ystyried nod yr adroddiad hwn, ystyrir bod y lefel yn ddigonol i hysbysu'r adroddiad hwn.

Ymgynghorwyd â setiau data sydd ar gael i'w lawrlwytho (ar gael gan Gyfoeth Naturiol Cymru) am wybodaeth parthed presenoldeb cynefinoedd dynodedig statudol o fewn 1km i safleoedd.

Chwiliwyd Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025 am wybodaeth ar safleoedd dynodedig anstatudol o fewn 1km i safleoedd.

Ymgynghorwyd â setiau data sydd ar gael i'w lawrlwytho (ar gael gan Gyfoeth Naturiol Cymru) am wybodaeth parthed presenoldeb Coetiroedd Hynafol a Chynefinoedd Pwysig lawn (HPI) o fewn 500m i'r safleoedd.

Hefyd, defnyddiwyd mapio ffynhonnell agored Arolwg Ordians 1:25,000 i nodi unrhyw gyrff d r a chyrtsiau d r wedi mapio o fewn 250m i'r safleoedd.

Mae casgliadau'r astudiaeth desg wedi eu cynnwys yn Adran 3 yr adroddiad hwn.

Cyflawnwyd yr astudiaeth desg ecolegol gan yr awdur sydd â chefnidir mewn ecoleg a phrofiad o gyflawni astudiaethau desg biolegol.

¹ Sefydliad Siartredig Rheolaeth Ecolegol ac Amgylcheddol

² Rhwydwaith Bioamrywiaeth Genedlaethol – Gateway: cronfa ddata gyda dros 127 miliwn cofnod o rywogaethau

³ Gwefan MAGIC-DEFRA: yn darparu gwybodaeth ddaearyddol am yr amgylchedd naturiol

03



3.4.

Arolwg cynefinoedd

Cyflawnwyd arolwg cynefin Cam 1 o'r ddau safle ar 13 Gorffennaf 2019 a 21 Gorffennaf 2019, y ddau mewn amodau tywydd da. Roedd yr arolwg yn cwmpasu ardal gyfan yr arolwg yn cynnwys nodweddion ffiniau. Cyflawnwyd yr arolwg cynefin Cam 1 gan yr awdur gyda chymorth ecolegydd gyda dros 13 mlynedd o brofiad ac sy'n aelod llawn o CIEEM.

Lluniwyd rhestr o rywogaethau planhigion (Atodiad A), gan amcangyfrif digonedd rhywogaethau planhigion cymharol yn defnyddio graddfa DAFOR⁴. Mae'r enwau gwyddonol ar gyfer y rhywogaethau planhigion yn dilyn y rhai yn New Flora of the British Isles⁵ ac fe'u rhestrir hefyd yn Atodiad A.

Cafodd cynefinoedd eu marcio ar fap sylfaen papur ac yna eu marcio ar ddogfen PDF. Gwnaethpwyd nodiadau targed i ddarparu gwybodaeth ar nodweddion penodol o ddiddordeb ecolegol neu gynefinoedd oedd yn rhy fach i'w mapio. Cynhwysir y rhain yn Atodiad B.

Cafodd unrhyw rywogaethau planhigion ymwithiol a restrwyd ar Atodlen 9 WCA 1981 (fel y'i diwygiwyd) a welwyd yn ystod yr arolwg cynefin Cam 1 eu nodi fel targed hefyd.



⁴ Defnyddir graddfa DAFOR ar gyfer samplu lled feintiol. Mae'n darparu amcangyfrif o ddigonedd cymharol rhywogaethau-Trechaf, Helaeth, Aml, Achlysurol, Prin.

⁵ Y gwaith safonol ar nodi planhigion fasgwlar gwyllt Ynysoedd Prydain.

03



3.5. Arolwg rheoli coed

Cynhaliwyd archwiliad llawn o'r holl goed ar safle Treforys yn ystod mis Hydref 2019 gan dyfwr coed gyda 14 mlynedd o brofiad yn y diwydiant.

Cwblhawyd yr archwiliad yn ein prif safle gan fod gan y lleoliad tua 365 o goed o fewn y terfyn gydag amrywiaeth oedran o ifanc i aeddfed. Mae cyflwr y coed hefyd yn amrywio o gyflwr gwael i dda. Mae yna hefyd rai coed marw.

Ni chynhwyswyd ein safle uned ddiwydiannol yn yr arolwg coed ar hyn o bryd gan fod y coed yno'n ifanc i led aeddfed heb unrhyw goed sy'n dirywio.



3.6. Arolygon rhywogaethau a warchodir a nodedig

Mae arolygon hefyd wedi eu cwblhau ar gyfer presenoldeb ystlumod ac asesiad herpetoffawna llawn. Cyflawnwyd yr arolygon hyn:

- Arolwg ystlumod – mis Mai i fis Hydref 2018
- Arolwg herpetoffawna – mis Awst i fis Fedi 2019

Cyfeirir at ganlyniadau'r ddau arolwg yn y cynllun hwn ac fe'u defnyddir i nodi camau gweithredu ac amcanion ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

104

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth DVLA (BAP)



04



4.1. Nodau

Nodau BAP DVLA yw:

- sicrhau bod targedau cynefinoedd a rhywogaethau o Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, GGC 2020-2025, a chynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol Abertawe yn cael eu trosi i weithredu effeithiol ar yr ystâd
- nodi targedau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau eraill o bwysigrwydd lleol ar yr ystâd
- datblygu partneriaethau effeithiol gyda staff a'r gymuned leol i sicrhau bod rhaglenni ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yn cael eu cynnal yn yr hirdymor
- codi ymwybyddiaeth yn fewnol ac yn lleol ynghylch yr angen am gadwraeth bioamrywiaeth ac i ddarparu arweiniad ar fioamrywiaeth
- sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i gyfleoedd ar gyfer cadwraeth a gwella bioamrywiaeth ar draws ein gweithrediadau
- monitro ac adrodd ar gynnydd mewn cadwraeth bioamrywiaeth i safon sy'n addas ar gyfer cynnal dyfarniad meincnod bioamrywiaeth

I sicrhau y bodlonir y nodau hynny, mae cynefinoedd a rhywogaethau wedi eu nodi sydd angen cynllun rheoli i gynnal a hybu eu cyflwr ar ein hystâd.



04



Yn ogystal, gall y BAP gyfrannu tuag at amcanion bioamrywiaeth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth.

Mae ein hystâd yn cynnwys tri safle yn ardal Abertawe. Mae'r safleoedd hyn yn darparu clytwaith gwahanol o gynefinoedd.

Mae ein prif safle, ble mae'r rhan fwyaf o'n staff wedi eu lleoli, o fewn lleoliad trefol yn ardal Treforys. Mae'r safle wedi ei amgylchynu gan eiddo preswyl i'r gogledd, dwyrain a'r de ac amlosgfa a mynwent Treforys i'r gorllewin. Mae'r safle'n rhan o ystâd y Goron.

Mae ein hail uned nad yw'n swyddfa mewn lleoliad trefol o fewn ystâd ddiwydiannol ar ochr gogledd orllewinol Abertawe. Mae'r safle wedi ei amgylchynu gan unedau diwydiannol eraill ar bob ochr, ac mae coridor o lystyfiant cyfredol rhwng yr unedau i'r gogledd a'r gorllewin sy'n arwain at ardal o laswelltir a choetir i'r de. Er nad ni yw perchnogion y safle hwn, mae gennym awtonomiaeth gyffredinol o ran rheoli'r adeilad a'r amgylchedd allanol.

Mae gennym drydydd safle, sy'n cynnwys ein canolfan gyswilt a chyfleusterau dysgu, sydd wedi ei leoli mewn lleoliad trefol gyda thai preifat ac ystâd ddiwydiannol o amgylch.



04



Prif safle



Safle uned ddiwydiannol (arolwg ymlusgiad)



Safle dysgu RLDC

Mae yna warchodfa natur leol i'r de orllewin sy'n gymharol agos. Mae'r safle yn bennaf yn adeiladau swyddfa gyda maes parcio. Ychydig iawn o ardal llefydd gwyrdd sydd.

Nid ni sy'n berchen ar y safle hwn a does fawr ddim cwm pas i gynnwys amcanion bioamrywiaeth a allai wneud newid materol i'r safle. O ganlyniad, nid yw'r safle wedi ei gynnwys yn benodol yn y cynllun gweithredu ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod y tua 1000 o staff a letyir yma wedi ymgysylltu â'r cynllun.

O ystyried maint bychan ein safleoedd a'r amrywiaeth cynefinoedd cyfyngedig a gefnogir yn ei derfynau, mae'r BAP yn ffocysu ar dair rhywogaeth a saith cynefin. Mae unrhyw rywogaethau ymledol hefyd wedi eu cynnwys. Mae detholiad y cynefinoedd a rhywogaethau wedi ei ddylanwadu gan ganlyniadau arolwg ar droed ecolegol, chwiliad data, a chofnodion safle a gasglwyd yn flaenorol gan DVLA. Yn seiliedig ar yr wybodaeth hon, cynhyrchwyd rhestr fer o gynefinoedd a rhywogaethau; yna cafodd y cynefinoedd a rhywogaethau 'targed' eu dethol yn seiliedig ar weithrediad y meini prawf canlynol:

- ceir gofyniad cyfreithiol i ddiogelu'r rhywogaeth neu gynefin
- mae'r cynefin neu rywogaeth eisoes yn bresennol ar y safle, ond gellid gwella ei statws neu ddsbarthiad gyda rheolaeth dargedig
- nid yw rhywogaeth wedi ei gofnodi'n flaenorol ar y safle ond mae potensial ar gyfer gwelliannau cynefin ar y safle i gyfrannu tuag at ffyniant lleol a statws cadwraeth y rhywogaeth dan sylw
- mae rhywogaethau ymledol fel y rhestrir yn Ddeddf Bywyd Gwyllt A Chefn Gwlad (Atodlen) yn bresennol ar yr ystâd

04




4.2. Cynefinoedd DVLA

Nododd yr asesiad ecolegol cychwynnol (PEA) o'n prif safle naw math o gynefin Cam 1 yn ogystal â phresenoldeb ardaloedd mawr o lawr caled nad yw'n fath cynefin Cam 1. Nododd yr arolwg cynefin Cam 1 yn y Safle uned ddiwydiannol 11 math cynefin Cam 1 yn ogystal â phresenoldeb ardaloedd mawr o lawr caled. Ceir rhestr o rywogaethau dangosol yn Atodiad A. Darperir nodiadau targed yn Atodiad B a mapio yn Atodiad C. Mae'r codau alffaniwmerig a ddefnyddir yn yr adran hon yn croesgyfeirio i'r dosbarthiad arolwg cynefin Cam 1 JNCC⁶. Mae trefn y disgrifiadau cynefin isod yn adlewyrchu eu trefn yn y llawlyfr arolwg cynefin Cam 1 ac nid yw'n adlewyrchu pwysigrwydd cynefin.

⁶ Pwyllgor Cadwraeth Natur ar y Cyd

Yn seiliedig ar y meini prawf a drafodir uchod, mae'r cynefinoedd canlynol wedi eu dethol i'w cynnwys yn y BAP:

Math o gynefin	Deddf yr Amgylchedd (Cymru) A.7 cynefin flaenoriaeth	Treforys – Prif safle	Safle uned ddiwydiannol
Prysg trwchus	Rhostir iseldir	✓	✓
Tir parc/coed gwasgaredig cymysg	Porfa goediog a thir parc	✓	✓
Glaswelltir niwtral wedi ei les wella	Dolydd iseldir	✓	✓
Glaswelltir amwynder	Na	✓	✓
Llwyni wedi eu plannu	Na	✓	✓
Clawdd cyfan heb lawer o rywogaethau	Gwrychoedd	✓	✓
Gwrych heb lawer o rywogaeth gyda choed	Gwrychoedd	✓	
Planhigyn cynefinol tal	Rhostir iseldir		✓
Merddwr mesotroffig	Pyllau		✓
Ffos sych	Na		✓



04



Cynllun Gweithredu Cynefin 1 – HAP 1

Cynefinoedd rhostir iseldir: prysg trwchus a phlanhigion cynefinol tal

Cyfeirnod	Gweithred	Safle
HAP 1.1	Cyflwyno cyfundrefn tocio/torri gwair ddetholus i gynnal rhywogaeth (ymyrryd ar olyniaeth).	
HAP 1.2	Atal colli cynefinoedd agored i ymlediad prysg.	Prif safle/ diwydiannol
HAP 1.3	Cael gwared ar brysg ymwithiol o gynefinoedd pwysig.	
HAP 1.4	Cynnal cydbwysedd a gytunir rhwng prysg a chynefinoedd agored.	

Cynllun Gweithredu Cynefin 2 – HAP 2

Porfa goediog a chynefin tir parc: Tir parc/coed gwasgareddig cymysg

Cyfeirnod	Gweithred	Safle
HAP 2.1	Ble bynnag fo'n bosibl, cadw coed marw a phydredig cyfredol a choed cwmp a marw sy'n sefyll.	
HAP 2.2	Ystyried asesiadau perygl a risg coed priodol ble mae diogelwch y cyhoedd yn fater i'w ystyried i atal dymchwel ac/neu gael gwared ar bren marw yn ddiangen.	Prif safle
HAP 2.3	Cynyddu'r boblogaeth o goed gyda chyfundrefn blannu a reolir i gynnwys plannu llwyni ar gyfer neithdar.	
HAP 2.4	Creu ardal amddiffyn gwreiddiau o amgylch coed aeddfed i osgoi rhoi gwrtaith neu baladdwyr neu ganiatáu i gywasgiad pridd neu gloddio ddifrodi gwreiddiau.	

Cynllun Gweithredu Cynefin 3 – HAP 3

Dolydd iseldir: glaswelltir SI naturiol

- Cynyddu amrywiaeth rhywogaethau

Cyfeirnod	Gweithred	Safle
HAP 3.1	Annog adfywio naturiol trwy gyfundrefn torri gwair a reolir mewn ardaloedd priodol.	Prif safle
HAP 3.2	Cynyddu amrywiaeth glastir gyda chyfundrefn blannu briodol.	

04



Cynllun Gweithredu Cynefin 4 – HAP 4 Gwrychoedd

Cyfeirnod	Gweithred	Safle
HAP 4.1	Mapio a mesur yr holl lwyni gwrychoedd sefydlu mesur sylfaenol.g Sicrhau nad yw cyfanswm hyd gwrych ar y safle yn is na'r hyd hwn.	
HAP 4.2	Cynllunio a dylunio holl weithrediadau'r safle yn y dyfodol a gweithgaredd datblygu i osgoi colli neu fyrhau gwrychoedd.	
HAP 4.3	Creu gwrych cynefinol newydd yn llawn rhywogaethau.	Prif safle/ diwydiannol
HAP 4.4	Caniatáu i sbwriel dail gronni ar waelod gwrychoedd ac mewn ardaloedd prysg er lles pryfed, adar a draenogod sy'n gaeafu.	
HAP 4.4	Osgoi torri gwrychoedd yn ystod tymor nythu adar rhwng mis Mawrth a mis Awst. I annod bioamrywiaeth, trefnu torri gwrychoedd yn ystod mis Ionawr/Chwefror a mis Medi/Hydref.	

Cynllun Gweithredu Cynefin 5 – HAP 5 Glaswelltir amwynder a llwyni a blannwyd:

- Gwella gwerth bioamrywiaeth plannu addurnol
- Gwella gwerth bioamrywiaeth cynefin glaswelltir

Cyfeirnod	Gweithred	Safle
HAP 5.1	Nodi ardaloedd o laswelltir i'w rheoli fel ardaloedd bywyd gwyllt.	
HAP 5.2	Gweithredu cyfundrefnau torri gwaith priodol i elwa bioamrywiaeth mewn ardaloedd a chyflwyno cymysgedd o hadau blodau gwyllt brodorol.	Prif safle
HAP 5.3	Nodi ardaloedd plannu addurnol sydd o ddiddordeb bioamrywiaeth isel a'u disodli gyda rhywogaethau/cynefinoedd o werth uwch.	Prif safle/ diwydiannol

Cynllun Gweithredu Cynefin 6 – HAP 6 Pwll a ffos sych

Cyfeirnod	Gweithred	Safle
HAP 6.1	Clirio'r llystyfiant yn rhannol o'r pwll i ddarparu gwedd agored.	
HAP 6.2	Cadw glaswellt i uchder o 30cm drwy dorri ym Medi a Mawrth.	Safle diwydiannol
HAP 6.3	Creu lloches newydd ger y pwll er lles amffibiaid sy'n cysgodi neu'n gaeafu.	
HAP 6.4	Rheoli twf algâu gyda gwellt barlys.	

04



4.3. Rhywogaethau DVLA

Mae rhai camau wedi eu neilltuo i rywogaethau unigol yn unig os yw eu hanghenion tu hwnt i gyrraedd y camau a amlinellir yn y Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd (felly, er enghraifft, ni chynigiwyd cynllun gweithredu ar gyfer broga cyffredin a llyffant cyffredin gan y byddai'r amcanion ar gyfer Cynllun Gweithredu Rhywogaeth i'r rhywogaethau hyn yn cael ei gynnwys mewn Cynlluniau Gweithredu Cynefin cyffredinol ar gyfer pyllau).

Amlygodd y daith ar droed bresenoldeb y rhywogaethau planhigion Atodlen 9 canlynol ar y safle: Llysiau'r dial (*Reynoutria japonica*), ceirch cochion (*Crocoshmia x crocosmiiflora*), rhododendron (*Rhododendron ponticum*) a chreigafal (*Cotoneaster sp.*) na nodwyd i lefel rhywogaeth ac a allai fod yn un o'r rhywogaethau ar Atodlen 9. Mae'r rhain yn rhywogaethau ymledol nad ydynt yn frodorol ac ni ddylid eu lledaenu yn y gwyllt. Mae cynllun rheoli llysiau'r dial ar waith i ddileu llecynnau bach sy'n gyfyngedig i ffin gogledd ddwyreiniol ein prif safle.

Yn seiliedig ar y meini prawf a drafodir uchod, mae'r rhywogaethau canlynol wedi eu dethol i'w cynnwys yn y BAP:

Rhywogaeth	Rhywogaethau A.7	Treforys – Prif safle	Safle uned ddiwydiannol
Ystlumod – Noctule (<i>Nyctalus noctula</i>)	✓	✓	✓
Leisler (<i>Nyctalus leisleri</i>)	✓	✓	✓
Ystlum lleiaf cyffredin (<i>Pipistrellus pipistrellus</i>)	✓	✓	✓
Ystlum lleiaf Nathusius (<i>Pipistrellus nathusii</i>)	✓	✓	✓
Ystlum lleiaf soprano (<i>Pipistrellus pygmaeus</i>)	✓	✓	
Ystlum hirglust (<i>Plecotus auritus</i>)	✓	✓	
Gwenyn mêl			✓
Madfallod (<i>Zootoca vivipara</i>)	✓		✓
Fflugbyesen y Wig (<i>Vicia sylvatica</i>)		✓	
Cribau San Ffraid (<i>Stachys officinalis</i>)		✓	
Llysiau'r dial (<i>Reynoutria japonica</i>)		✓	
Ceirch cochion (<i>Crocoshmia x crocosmiiflora</i>)		✓	
Rhododendron (<i>Rhododendron ponticum</i>)			✓
Creigafal (<i>Cotoneaster sp.</i>)			✓



04



Cynllun Gweithredu Rhywogaeth 1 – SAP 1

Ystlumod:

- Annog ystlumod i ddefnyddio ein safleoedd
- Darparu nodweddion nythu atodol ar gyfer ystlumod

Cyfeirnod	Gweithred	Safle
SAP 1.1	Lleihau arllwysiad golau o oleuadau allanol, yn arbennig yn agos at goridorau tywyll, gwrychoedd/coed ffiniol.	
SAP 1.2	Nodi lleoliadau posibl ar gyfer creu cyfleoedd nythu yn cynnwys coed, adeiladau a strwythurau eraill.	Prif safle/ diwydiannol
SAP 1.3	Gosod blychau ystlumod neu nodweddion nythu priodol ar draws nodweddion a nodir – amgylchedd adeiledig a naturiol.	
SAP 1.4	Gosod coridorau o oleuadau beicio coch dwfn i ddarparu cysylltedd ble mae angen.	

Cynllun Gweithredu Rhywogaeth 2 – SAP 2

Gwenyn

Cyfeirnod	Gweithred	Safle
SAP 2.1	Adnewyddu/cynnal cychod gwenyn ar y safle.	
SAP 2.2	Cyflwyno cwch gwenyn newydd fel fo'n briodol.	I Safle diwydiannol
SAP 2.3	Darparu cynefin peilliwr ychwanegol gydag amserlen cynnal a chadw ddiwygiedig i ardaloedd penodol.	

Cynllun Gweithredu Rhywogaeth 3 – SAP 3

Madfall gyffredin:

- Cynnal dwysedd y boblogaeth
- Sicrhau y cynhelir addasrwydd y rhywogaeth

Cyfeirnod	Gweithred	Safle
HAP 3.1	Cynnal cyflwr cynefinoedd gydag amserlen cynnal a chadw flynyddol dargedig.	Safle diwydiannol
HAP 3.2	Creu gaeafwisgoedd ble fo'n briodol.	

04



Cynllun Gweithredu Rhywogaeth 4 – SAP 4

AWI: ffugbysen y wig a chribau san ffraid

Cyfeirnod	Gweithred	Safle
SAP 4.1	Rheoli cynefin i sicrhau nad amharir ar blanhigion.	Safle
SAP 4.2	Cyflwyno arwyddion ar gyfer ymwybyddiaeth.	diwydiannol

Cynllun Gweithredu Rhywogaeth 5 – SAP 5

Rhywogaethau ymledol:

- Llysiau'r dial (Reynoutria japonica)
- ceirch cochion (Crococsmia x crocosmiiflora)
- rhododendron (Rhododendron ponticum)
- creigafal (Cotoneaster sp.)

Cyfeirnod	Gweithred	Safle
HAP 5.1	Sicrhau y cynhelir cynllun rheoli llysiau'r dial a'i fonitro ar gyfer cywirdeb.	
HAP 5.2	Sicrhau bod gwaith a gyflawnir mewn ardaloedd ble mae spp atodlen 9 yn bresennol ddim yn amharu ar na lledaenu'r planhigyn.	Prif safle/ diwydiannol



04



4.4.

Codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r gymuned

Rydym yn gwerthfawrogi waeth faint o waith ac ymdrech sy'n mynd tuag at hybu bioamrywiaeth ar draws ein hystâd, gwerthfawrogiad ei staff a chymuned o'r amgylchedd naturiol sy'n pennu ein lefel o lwyddiant. Ni ellir tan ddatgan pwysigrwydd bod cael pawb i fod yn ymwybodol o'n nodau.

I sicrhau ein bod yn rhannu'r gwaith a wnawn i annog a hybu bioamrywiaeth, mae'r camau canlynol wedi eu dethol i'w cynnwys yn y BAP:

Cynllun Gweithredu Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu Cymunedol 1 – ACEAP1

- Hyrwyddo bioamrywiaeth gyda staff ac ymwelwyr

Cyfeirnod	Gweithred
ACEAP 1.1	Codi ymwybyddiaeth o arddio bywyd gwyllt i staff ac ymwelwyr.
ACEAP 1.2	Cynnwys ysgolion lleol mewn diwrnod bioamrywiaeth ar y safle.
ACEAP 1.3	Creu llwybr gydag arwyddion i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ar y safle.
ACEAP 1.4	Creu pwyllgor bioamrywiaeth swyddogol i oruchwyllo a chyfathrebu cynnydd.

4.5.

Gwobr Meincnod Bioamrywiaeth DVLA

Mae'r Meincnod Bioamrywiaeth yn wobwr a ddyferniodd gan yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt sy'n cydnabod gwelliannau parhaus i fioamrywiaeth. Mae'r wobwr yn seiliedig ar broses reoli sy'n ein galluogi i asesu ein heffaith ar y byd naturiol, gwella ein cyfraniad i'r amgylchedd ac arddangos ein hymroddiad i fioamrywiaeth.

Mae'r Meincnod Bioamrywiaeth wedi ei gynllunio i gyd-fynd ag ISO14001 ac mae'n darparu cydnabyddiaeth genedlaethol i ymroddiad sefydliad tuag at fioamrywiaeth ac yn arddangos rheolaeth tir cyfrifol gyda bioamrywiaeth yn graidd i weithrediadau'r sefydliad.

Bydd nifer o'r gofynion i gyflawni'r Meincnod Bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni trwy weithrediad llwyddiannus y BAP a dylid ystyried cais am Feincnod Bioamrywiaeth fel nod terfynol y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn.

| 04



**Mae
bioamrywiaeth
yn adnodd hanfodol
ac mae'n allweddol
ein bod yn cydnabod
ei bwysigrwydd
i'n bywydau...**

105

Rhoi ar waith



05



5.1. Pwy sy'n gwneud beth?

Bydd ein tîm cynaliadwyedd yn sicrhau y gweithredir amcanion ein BAP. Ein swyddog arweiniol bioamrywiaeth fydd â'r prif cyfrifoldeb dros gydlynu. Bydd cyfrifoldebau cyn cynnwys gweithredu'r BAP, a monitro, mesur a chofnodi cynnydd.

I gydlynu gweithrediad y BAP, byddwn yn creu grŵp llywio bioamrywiaeth swyddogol. Bydd y grŵp hwn yn sicrhau'n bod yn cynnal momentwm er mwyn cyflawni amcanion y BAP. Gan fod nifer o'n hamcanion yn cynnwys cynhaliad tir a thirlunio ar ystâd DVLA, dylid cynnwys aelodau ein timau Ystadau ac Iechyd a Diogelwch ar y grŵp llywio bioamrywiaeth. Mae hefyd yn briodol i'r tîm cyfathrebu fod yn rhan o'r grŵp i gydlynu ymwybyddiaeth ar draws yr ystâd.

5.2. Monitro ac adolygu

Bydd monitro ac adolygu BAP DVLA yn gyfrifoldeb i'r swyddog arweiniol bioamrywiaeth. Bydd yr amcanion yn cael eu hadolygu pob 12 mis er mwyn monitro a chofnodi cynnydd, gan wneud paratodau digonol cyn gweithredu'r set newydd o amcanion.

Bydd ein BAP yn ddogfen fyw y gellir ei haddasu gydag amcanion ychwanegol. Felly hefyd, mae'r llinell amser i gyflawni'r amcanion hefyd yn hyblyg felly dylid symud prosiectau i gyd-fynd ag adnoddau neu gyfleoedd. Os nad yw amcanion wedi eu bodloni neu os nad ydynt yn ymarferol, bydd y BAP yn cael ei addasu trwy ddiwygio'r dyddiad targed neu ddisodli'r nod gyda gweithred arall a fyddai'n fuddiol i rywogaeth blaenoriaeth neu darged ar y BAP, LBAP neu UKBAP.

5.3 Adrodd

Mae gennym nifer o ofynion adrodd a gyhoeddir yn allanol sy'n golygu eu bod ar gael i bawb sydd eisiau gweld ein cynnydd yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon sy'n monitro ein cyflawniadau yn erbyn targedau ac amcanion. Hefyd, mae'n un o ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gyhoeddi adroddiad cryno Atodlen 6 yn allanol.



05



Atodiad A – Rhywogaethau planhigion a gofnodwyd

Prif safle

Prysg trwchus A2.1

Mieri Rubus fruticosus agg.	D
Ceirchwellt ffug Arrhenatherum elatius	F
Ytbysen y waun Lathyrus pratensis	F
Eiddew Hedera helix	O
Gwyros Ligustrum vulgare	R
Helyglys Pêr Epilobium hirsutum	R
Helyglys Hardd Chamerion angustifolium	R
Dail tafol Rumex obtusifolius	R
Ffugbysen y Wig Vicia sylvatica (TN8 AWI)	R
Rhawn y March Equisetum arvense	R
Cotoneaster sp. (posibl yn rywogaeth At. 9)	R
Llysiâu Steffan Circaea lutetiana	R
Llau'r Offeiriad Galium aparine	R
Panasen y Cawr Heracleum sphondylium	R
Clych y Perthi Calystegia sepium	O

Tir parc/coed gwasgaredig cymysg A3.3.

Criafolen Sorbus aucuparia	amh
Ffynidwydden Pinus sylvestris	amh
Masarnwydden Acer pseudoplatanus	amh
Onnen Fraxinus excelsior	amh
Leylandii (sp.) Cupressus x leylandii	amh

Oestrwydden Carpinus betulus	amh
Derwen goesynnog Quercus robur	amh
Bedwen arian Betula papyrifera	amh
Draenen Wen Crataegus monogyna	amh
Helygen Ddeilgron Salix caprea	amh
Planwydden Platanus x acerifolia	amh
Pisgwydden Deilen Fawr Tilia platyphyllos	amh
Castanwydden Castanea sativa	amh
Ffawydden Fagus sylvatica	amh
Cerddinen Sweden Sorbus intermedia	amh
Helygen Wen Salix alba	amh
Gymwydden bêr Liquidambar styraciflua	amh
Llarwydden Ewrop Larix decidua	amh
Coeden y nefoedd Ailanthus altissima	amh
Masarnen (sp.) Acer sp.	amh
Afal Malus sp.	amh
Celyn Ilex aquifolium	amh
Collen Corylus avellana	amh
Gwernen Alnus glutinosa	amh
Gwernen Eidalaid Alnus cordata	amh

05


**Glaswelltir niwtral wedi ei les wella B2.2.
(o amgylch y maes parcio cyfagos i Clasemont Road)**

Ceirchwellt ffug <i>Arrhenatherum elatius</i>	D
Maswellt <i>Holcus lanatus</i>	F
Pysen-y-ceirw <i>Lotus corniculatus</i>	O
Troed y Ceiliog <i>Dactylis glomerata</i>	O
Panasen y Cawr <i>Heracleum sphondylium</i>	O
Mieri <i>Rubus fruticosus</i> agg.	R
Llys y Llynog <i>Geranium robertianum</i>	R
Hocys Mws <i>Malva moschata</i>	R
Ytbysen y waun <i>Lathyrus pratensis</i>	R
Meillionen Felen Fechan <i>Trifolium dubium</i>	A
Pumdalen Ymlusgol <i>Potentilla reptans</i>	F
Pig yr Aran Hirgoesog <i>Geranium columbinum</i>	R
Tagwyg Bysen <i>Vicia cracca</i>	O
Clust Llygoden Culddail <i>Cerastium fontanum</i>	O
Craith Unnos <i>Prunella vulgaris</i>	F
Eiddew <i>Hedera helix</i>	F

**Glaswelltir niwtral wedi ei les wella B2.2.
(o amgylch bloc B)**

Craith Unnos <i>Prunella vulgaris</i>	amh
Llygad Llo <i>Leucanthemum vulgare</i>	amh
Maeswellt <i>Holcus lanatus</i>	amh
Maeswellt Cyffredin <i>Agrostis capillaris capillaris</i>	amh
Rhygwellt Lluosflwydd <i>Lolium perenne</i>	amh
Pysen-y-ceirw <i>Lotus corniculatus</i>	amh
Pumdalen Cyffredin <i>Potentilla simplex</i>	amh
Llygad Doil <i>Veronica chamaedrys</i>	amh

Coedfrwynen y Maes <i>Luzula campestris</i>	amh
Ysgallen y Gors <i>Cirsium palustre</i>	amh
Crafanc y Frân <i>Ranunculus repens</i>	amh
March Ysgallen <i>Cirsium vulgare</i>	amh
Briallu <i>Primula vulgaris</i>	amh
Meillionen Goch <i>Trifolium pratense</i>	amh
Rhwyddlwyn Mynyddig <i>Veronica montana</i> (awi)	amh
Clust Llygoden Culddail <i>Cerastium fontanum</i>	amh
Dail tafol <i>Rumex obtusifolius</i>	amh
Briallu Mair <i>Primula veris</i>	amh
Llynhydydd <i>Plantago lanceolata</i>	amh
Dant y Llew (sp.) <i>Taraxacum</i> sp.	amh
Troed y Ceiliog <i>Dactylis glomerata</i>	amh
Pengaled <i>Centaurea nigra</i>	amh
Creulys <i>Jacobaea vulgaris</i>	amh
Clust y Gath <i>Hypochaeris radicata</i>	amh

**Glaswelltir niwtral wedi ei les wella B2.2.
(adran fechan o amgylch TN14)**

Ceirchwellt ffug <i>Arrhenatherum elatius</i>	D
Marchwellt <i>Elymus repens</i>	D
Mieri <i>Rubus fruticosus</i> agg.	O
Dail tafol <i>Rumex obtusifolius</i>	A
Helyglys Pêr <i>Epilobium hirsutum</i>	F
Rhedynen <i>Pteridium aquilinum</i>	O
Pysen-y-ceirw <i>Lotus corniculatus</i>	O
Pumdalen sp. <i>Potentilla</i> sp.	R
Cribau San Ffraid <i>Stachys officinalis</i> (awi) TN14	R

05



Glaswelltir amwynder J1.2.

Rhygwellt Lluosflwydd <i>Lolium perenne</i>	D
Maeswellt Cyffredin <i>Agrostis capillaris</i>	D
Maswellt <i>Holcus lanatus</i>	D
Meillionen Wen <i>Trifolium repens</i>	F
Llygad Llo <i>Leucanthemum vulgare</i>	R
Pysen-y-ceirw <i>Lotus corniculatus</i>	O
Llaethysgallen Arw <i>Sonchus asper</i>	R
Craith Unnos <i>Prunella vulgaris</i>	O
Llwynhidydd <i>Plantago lanceolata</i>	F
Crafanc y Frân <i>Ranunculus repens</i>	O
Ceirchwellt ffug <i>Arrhenatherum elatius</i>	R
Llygad y Dydd <i>Bellis perennis</i>	F
Troed y Ceiliog <i>Dactylis glomerata</i>	R
Mapgoll <i>Geum urbanum</i>	R
Peiswellt Coch <i>Festuca rubra</i>	R
Mwsogl (sp.)	D
Dail tafol cyrliog <i>Rumex crispus</i>	R
Meillionen Felen Fechan <i>Trifolium dubium</i>	R
Clust y Gath <i>Hypochaeris radicata</i>	R
Clust Llygoden Culddail <i>Cerastium fontanum</i>	O

Gwrych rhywogaeth gwael didoriad J2.1.2. (o amgylch isorsaf)

Leylandii (sp.) <i>Cupressus x leylandii</i>	D
--	---

Gwrych rhywogaeth gwael didoriad J2.1.2. (o amgylch meithrinfa a maes parcio cyfagos)

Celyn <i>Ilex aquifolium</i>	D
Eiddew <i>Hedera helix</i>	D
Clych y Perthi <i>Calystegia sepium</i>	F
Llau'r Offeiriad <i>Galium aparine</i>	F
Nipplewort <i>Lapsana communis</i>	O
Llys y Llwynog <i>Geranium robertianum</i>	F
Ceirchwellt ffug <i>Arrhenatherum elatius</i>	O
Maswellt <i>Holcus lanatus</i>	O
Codwarth Caled <i>Solanum dulcamara</i>	R
Mieri <i>Rubus fruticosus</i> agg.	D
Ysgawen <i>Sambucus nigra</i>	R
Onnen <i>Fraxinus excelsior</i>	R

Gwrych rhywogaeth gwael gyda choed J.2.3.2

Draenen Wen <i>Crataegus monogy</i>	amh
Masarnwydden <i>Acer pseudoplatanus</i>	amh
Onnen <i>Fraxinus excelsior</i>	amh
Gwyros <i>Ligustrum vulgare</i>	amh
Eiddew <i>Hedera helix</i>	amh
Prysg trwchus rhywogaeth yn bresennol	amh

05

**Llwyn a gyflwynwyd J1.4.**

Coeden fêl Buddleja davidii	amh
Rhosyn spp. Rosa spp.	amh
Eithin Ulex europaeus	amh
Rhosyn Saron Hypericum calycinum	amh
Hesgen sp.	amh
Cwytros Cornus sanguinea	amh
Phormium sp.	amh
Spirea sp.	amh
Rhododendron sp.	amh
Mefus Gwylt Fragaria vesca	amh
Tegeirian-y-gors Deheuol Dactylorhiza praetermissa	amh
Mahonia sp.	amh
Coeden boc Buxus sempervirens	amh
Jasmine sp. Jasminum sp.	amh
Llawryf sp. Laurus sp.	amh

Safle uned ddiwydiannol**Prysg trwchus A2.1.
(wedi ei leoli ar ochr orllewinol y safle)**

Eithin Ulex europaeus	D
Mieri Rubus fruticosus agg.	D
Ysgallen Gyffredin Cirsium arvense	A
Helyglys Pêr Epilobium hirsutum	F
Dail tafol Rumex obtusifolius	F
Tafolen y gors Rumex palustris	F
Cwyrwialen Cornus sanguinea	O
Rhosyn Gwylt Rosa canina	O

Draenen Ddu Prunus spinosa	O
Peiswellt Mawr Festuca gigantea	O
Ceirchwellt ffug Arrhenatherum elatius	O
Maswellt Holcus lanatus	O
Cynffon y Gath Typha latifolia	O
Helygen Ddeilgron Salix caprea	O
Coedfrwynen y Maes Luzula campestris	O
Pengaled Centaurea nigra	O
Troed y Ceiliog Dactylis glomerata	R
Ytbysen y waun Lathyrus pratensis	R

**Prysg trwchus A2.1.
(wedi ei leoli ar ochr ddwyreiniol y safle)**

Mieri Rubus fruticosus agg.	D
Helygen Ddeilgron Salix caprea	D
Eithin Ulex europaeus	D
Draenen Ddu Prunus spinosa	F
Draenen Wen Crataegus monogyna	F
Collen Corylus avellana	F
Dail tafol Rumex obtusifolius	O
Helygen Wiail Salix viminalis	O
Collen Corylus avellana	O
Creulys Jacobaea vulgaris	O

Tir parc/coed gwasgaredig cymysg A3.3.

Onnen Fraxinus excelsior	amh
Helygen Ddeilgron Salix caprea	amh
Helygen Wiail Salix viminalis	amh

05

**Glaswelltir niwtral wedi ei les wella B2.2.**

Ceirchwellt ffug <i>Arrhenatherum elatius</i>	D
Brigwellt Cydynnog <i>Deschampsia cespitosa</i>	D
Maswellt <i>Holcus lanatus</i>	A
Eirinllys <i>Hypericum perforatum</i>	F
Craith Unnos <i>Prunella vulgaris</i>	F
Pumdalen Ymlusgol <i>Potentilla reptans</i>	F
Tinllwyd <i>Potentilla anserina</i>	O
Ysgallen Gyffredin <i>Cirsium arvense</i>	O
Troed y Ceiliog <i>Dactylis glomerata</i>	O
Ytbysen y waun <i>Lathyrus pratensis</i>	O
Rhawn y March <i>Equisetum arvense</i>	O
Llwynhidydd <i>Plantago lanceolata</i>	O
Pengaled <i>Centaurea nigra</i>	O
Brwynen Babwyr <i>Juncus effusus</i>	O
Llaethsgallen Arw <i>Sonchus asper</i>	O
Helyglys Pêr <i>Epilobium hirsutum</i>	O
Dail tafol <i>Rumex obtusifolius</i>	O
Maeswellt Gwyn y Maes <i>Agrostis stolonifera</i>	O
Helyglys <i>Epilobium montanum</i>	O
Creulys <i>Jacobaea vulgaris</i>	O
Ysgallen y Gors <i>Cirsium palustre</i>	O
March Ysgallen <i>Cirsium vulgare</i>	R
Llys y Llwynog <i>Geranium robertianum</i>	R
Rhonwellt <i>Phleum pratense</i>	R
Brwynen Galed <i>Juncus inflexus</i>	R
Danhadlen farw (sp). <i>Lamium sp.</i>	R

Marchredyn fenyw? <i>Athyrium filix-femina</i>	R
Byddon Chwerw <i>Eupatorium cannabinum</i>	R
Llys y Milwr <i>Lythrum salicaria</i>	R
Eithin <i>Ulex europaeus</i>	LR
Mieri <i>Rubus fruticosus agg.</i>	LR

Cynefinol tal C3.1.

Ysgallen y Gors <i>Cirsium palustre</i>	D
Pengaled <i>Centaurea nigra</i>	D
Brigwellt Cydynnog	D
Dail tafol <i>Rumex obtusifolius</i>	D
Moronen y Moch <i>Pastinaca sativa</i>	D
Brwynen Galed <i>Juncus inflexus</i>	A
Brwynen Babwyr <i>Juncus effusus</i>	A
Tagwyg Bysen <i>Vicia cracca</i>	F
Llau'r Offeiriad <i>Galium aparine</i>	F
Pumdalen Ymlusgol <i>Potentilla reptans</i>	F
Hesgen dywysennog fwyaf arex <i>vulpinoidea</i>	O
Troed y Ceiliog <i>Dactylis glomerata</i>	O
Peiswellt Mawr <i>Festuca gigantea</i>	O
Brwynen Babwyr Bellennaidd <i>Juncus conglomeratus</i>	R
Marchwellt <i>Elymus repens</i>	R
Creulys <i>Jacobaea vulgaris</i>	R

Merddwr mesotroffig G1.2. (ffos wlyb)

Cynffon y Gath <i>Typha latifolia</i>	D
Helyglys Pêr <i>Epilobium hirsutum</i>	D

05

**Merddwr mesotroffig G1.2. (pwll)**

Cynffon y Gath <i>Typha latifolia</i>	D
Tafolen y gors <i>Rumex palustris</i>	D
Mwsogl sp.	D

Glaswelltir amwynder J1.2.

Mwsogl sp.	A
Meillionen Wen <i>Trifolium repens</i>	F
Pysen-y-ceirw <i>Lotus corniculatus</i>	F
Craith Unnos <i>Prunella vulgaris</i>	LF
Coedfrwynen y Maes <i>Luzula campestris</i>	O
Peiswellt Mawr <i>Festuca gigantea</i>	O
Dail tafol <i>Rumex obtusifolius</i>	O
Crafanc y Frân <i>Ranunculus repens</i>	O
Llygad y Dydd <i>Bellis perennis</i>	O
Llwynhidydd <i>Plantago lanceolata</i>	O
Ceirchwellt ffug <i>Arrhenatherum elatius</i>	O
Maswellt <i>Holcus lanatus</i>	O
Clust Llygoden Culddail <i>Cerastium fontanum</i>	O
Tinllwyd <i>Potentilla anserina</i>	R
Marchwellt <i>Elymus repens</i>	R
Meillionen Goch <i>Trifolium pratense</i>	R
Meillionen Felen Fechan <i>Trifolium dubium</i>	R
Pengaled <i>Centaurea nigra</i>	R

Llwyn a gyflwynwyd J1.4.

Coeden bocs <i>Buxus sempervirens</i>	amh
Berberis sp.	amh
Cotoneaster sp. (posibl yn rywogaeth At. 9)	amh
Collen <i>Corylus avellana</i>	amh
Rhododendron <i>Rhododendron ponticum</i> (Atodlen 9)	amh
Eithin <i>Ulex europaeus</i>	amh
Afal <i>Malus</i> sp.	amh
Helygen Ddeilgron <i>Salix caprea</i>	amh
Corswigen <i>Viburnum opulus</i>	amh
Pisgwydden <i>Euonymus europaeus</i>	amh
Llawryf sp. <i>Laurus</i> sp.	amh
Cerddinen spp. <i>Sorbus</i> spp.	amh
Rhosyn Gwylt <i>Rosa canina</i>	amh

Gwrych rhywogaeth gwael didoriad J2.1.2.

Collen <i>Corylus avellana</i>	D
Helygen Wiail <i>Salix viminalis</i>	O
Eithin <i>Ulex europaeus</i>	O
Cwyrwialen <i>Cornus sanguinea</i>	O

05



Ffos sych J2.6.

Mae ffos sych wedi ei chytrefu gan laswelltir wedi lled wella niwtral a phrysg trwchus – disgrifir cyfansoddiad rhywogaethol yn y mathau o gynefinoedd a grybwyllwyd.

Pwll asesiad HSI ar safle uned ddiwydiannol

Lleoliad map: b (ffiniol)	0.5
Amcangyfrif ardal y pwll = 100m ²	0.2
Nifer o flynyddoedd mewn 10 mae'r pwll yn sychu: blynyddol	0.1
Ansawdd dŵr: cymedrol	0.67
Canran perimedr cysgodol (i o leiaf 1 metr o'r lan): amcangyfrif 20%	1
Effaith adar dŵr: absennol	1
Presenoldeb pysgod: absennol	1
Nifer o byllau o fewn 1 km: 1	0.65
Cynefin tiriogaethol: da	1
Canran o arwyneb y pwll wedi ei feddiannu gan llystyfiant ffiniol (mawrth – mai): amcangyfrif. 100%	0.8
	0.57



05



Atodiad B – Nodiadau targed cynefin

Prif safle

Nodyn targed	Disgrifiad
TN1	Bocs adar mewn coed pinwydd (<i>Pinus nigra</i>).
TN2	Dwy goeden binwydd mewn cyflwr dirywiol.
TN3	Ardal o laswellt amwynder gyda choed gwasgareddig tu allan i eiddo DVLA a reolir gan DVLA. Mae rhai rhywogaethau'n bresennol gan eu bod ar gynefinoedd cysylltiol o fewn. Mae hefyd yn cynnwys stand bychan o brysgwydd trwchus sy'n llawn eiddew a mieri.
TN4	Samplau ynn yn arddangos olion clefyd coed ynn.
TN5	Llwyfen (<i>Ulmus procera</i>) gyda gorchudd o eiddew mewn cyflwr dirywiol dan Orchymyn Diogelu Coed (TPO).
TN6	Stand o lysiau'r dial (<i>Reynoutria japonica</i>), rhywogaeth ymledol, anffrodorol atodlen 9.
TN7	Pentwr o rwbel cywasgedig mewn llystyfiant, yn creu potensial ar gyfer ymlusgiad.
TN8	Ardal mewn prysgwydd trwchus a choeden gyda ffacbys y coed sy'n gyffredin yn lleol (<i>Vicia sylvatica</i>), rhywogaeth dangosydd coetir hynafol.
TN9	Stand o geirch cochion (<i>Crocsmia x crocosmiiflora</i>), rhywogaeth ymledol, anffrodorol atodlen 9.
TN10	Dwy goeden mewn maes parcio (pinwydd a bedwen arian <i>Betula pendula</i>) gyda TPO.
TN11	Rhes o goed aeddfed a gynhwyswyd mewn TPO grŵp.
TN12	Rhywogaeth cotoneaster (<i>Cotoneaster</i> sp.) na nodwyd i lefel rhywogaeth ac a allai fod yn un o'r rhywogaethau ar Atodlen 9.
TN13	Pentwr o foncyffion gyda photensial ar gyfer ymlusgiaid ac infertebratau.
TN14	Dannog y coed (<i>Stachys officinalis</i>) rhywogaeth dangosydd coetiroedd hynafol.
TN15	Blwch adar mewn coeden masarnen borffor addurniadol.
TN16	Tegeirian cors y de (<i>Dactylorhiza praetermissa</i>) yn agor rhwng planhigion fformiw addurniadol.
TN17	Blwch adar mewn cyflwr dirywiol ar binwydden, gwelwyd gwenyn yn defnyddio'r blwch hwn yn 2018.
TN18	TN18 Blwch adar mewn cyflwr dirywiol ar binwydden
TN19	Blwch adar ar fasarnen Norwy (<i>Acer platanoides</i>)

Safle uned ddiwydiannol

Nodyn targed	Disgrifiad
TN1	Dau gwch gwenyn artiffisial mewn cyflwr dirywiol, wedi syrthio o fwn llystyfiant. Mae yna gwch gwenyn weithredol yn un ohonynt.

Grŵp Rheoli Adnoddau Dynol ac Ystadau

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

ar gyfer yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a
Cherbydau 2020 - 2025 (DVLA)

DVLA
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

gov.uk/dvla